CYNGOR
Sir Ddinbych
Denbighshire
COUNTY COUNCIL

Adroddiad Blynyddol 2010-11

Cyngor Sir Ddinbych
Gwasanaethau Cymdeithasol

Gorffennaf 2011

Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad	3
Crynodeb o'n asesiad	4
Cyrchu gwasanaethau	5
Gwasanaethau Oedolion	6
Gwasanaethau Plant a Theuluoedd	17
Cefnogi'r gwasanaethau	25

Os hoffech chi wybod mwy am ein gwasanaethau a sut i'w cyrchu, cysylltwch â'r Tîm Cyswllt Cyntaf. Cewch ysgrifennu atom neu alw i'n gweld yn:

64 Ffordd Brighton
Y Rhyl
LL18 3HN

Neuadd y Sir
Ffordd Wynnstay
Rhuthun
LL15 1YN

Ffôn 01824 712900
Ffacs 01824 712888
Testun 07917 597993
Ebost timcyswlltcyntaf@sirddinbych.gov.uk
Gwefan www.sirddinbych.gov.uk

Os hoffech gael y daflen hon mewn Braille, print bras neu iaith neu fformat arall, ffoniwch am ddim ar 0800 243 980.

Cyflwyniad

Dyma fy ail Adroddiad Blynyddol am wasanaethau cymdeithasol yn Sir Ddinbych. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod 2010/11 ac mae'n cynnwys fy marn ynglŷn â pha mor effeithiol y bu'r gwasanaethau cymdeithasol yn bodloni anghenion ein cymunedau. Mae'r adroddiad hefyd yn esbonio ein blaenoriaethau ar gyfer 2011/12.

Er bod Sir Ddinbych yn sir fechan, mae'n cyflwyno set o heriau difrifol i'r rhai sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys poblogaeth sy'n heneiddio'n gyflym, rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru a gwasanaethu cymunedau amrywiol iawn. Bydd yr adroddiad hwn yn dweud wrthych chi sut rydyn ni'n ymateb i'r heriau sy'n ein wynebu yma yn Sir Ddinbych.

Mae pob awdurdod lleol yn wynebu heriau ariannol mawr. Llwyddodd Cyngor Sir Ddinbych i wneud arbedion effeithlonrwydd gwerth £6.4 miliwn yn 2010/11. Llwyddwyd i wneud hyn heb fawr ddim effaith ar wasanaethau rheng flaen. Ond mae'r heriau ariannol yn parhau, gyda'r Cyngor yn gorfod canfod rhagor o arbedion, oddeutu £5m, yn y flwyddyn nesaf. Mae gennym ni gynlluniau clir i sicrhau'r arbedion hyn, ond bydd cyflawni hynny yn parhau i fod yn her sylweddol.

Mae gennym ni gefndir da o ran newid gwasanaethau i ddarparu mwy o annibyniaeth, dewis a gwerth am arian yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae angen i ni barhau i ddatblygu ein gwasanaethau a chyflawni gwelliannau – yn enwedig trwy gydweithredu. Un o'r prif heriau i ni fydd rheoli newid yn dda. Mae'n rhaid i ni wneud yn siwr bod y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau cymdeithasol, ein staff a'n cymunedau yn cael eu cynnwys yn llwyr yn ystod y cyfnod newid hwn ac yn cael y cyfle i siapio'r ffordd y gwneir newidiadau. Rydyn ni'n meddu ar rai enghreifftiau rhagorol o lle rydyn ni wedi gwneud hyn yn dda, a rhai enghreifftiau heb fod cystal, a bydd rhaid i ni ddysgu o'r profiadau hyn. Rhoir enghreifftiau yn yr adroddiad hwn i dynnu sylw at rai o brofiadau defnyddwyr ein gwasanaethau a barn eraill a fu'n arolygu ein gwasanaethau.

Er mwyn sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth yn parhau'n anhysbys mae eu sylwadau'n cael eu cyflwyno gan aelodau o Deulu Ceri – teulu rhithwir Sir Ddinbych. Cewch ragor o fanylion am deulu Ceri ar wefan Sir Ddinbych Iach: www.sirddinbychiach.co.uk

Rydw i'n croesawu adborth a sylwadau ar gynnwys yr adroddiad hwn gan ei bod yn bwysig cyfleu darlun o Wasanaethau Cymdeithasol yn Sir Ddinbych y gellir ei adnabod. Cewch anfon adborth i: ACRF Feedback, Tŷ Nant, Prestatyn LL19 9LG. Mae croeso i chi ffonio 01824 712900 neu anfon neges e-bost i: sylwadaugc@sirddinbych.gov.uk i roi eich sylwadau.

Sally Ellis
Cyfarwyddwr Corfforaethol Demograffeg, Lles a Chynllunio

Crynodeb o'n asesiad

Fy asesiad i ydy bod Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych yn parhau i berfformio'n dda yn y rhan fwyaf o feysydd. Rydyn ni'n newid ein gwasanaethau i wneud yn siwr y gallwn ni ymateb yn effeithiol i newidiadau a chynnydd yn y galw am wasanaethau. Mae hyn yn cynnwys:

- **rhaglen uchelgeisiol i weddnewid gofal cymdeithasol i oedolion yn Sir Ddinbych**

  Rydyn ni wedi newid ein strwythur i'w gwneud yn haws i bobl gael gafael ar ein gwasanaethau, tra'n datblygu dull o ddarparu gwasanaethau i bobl yn lleol. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu datblygiadau yn y Gwasanaeth Iechyd a'r nod ydy darparu gwasanaeth lle mae'r asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd, mewn cymunedau ledled Sir Ddinbych, i alluogi rhagor o bobl i fyw'n annibynnol yn eu cymuned. Mae'r pwyslais ar ymyriad cynnar ac atal problemau, tra'n cydnabod y bydd gan boblogaeth sy'n heneiddio anghenion gofal tymor hir sy'n galw am gymorth ymatebol wedi ei deilwra i anghenion yr unigolyn.

  Bydd ein Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes yn symud ymlaen yn sgîl cael dyrchafiad. Bydd un o'n Rheolwyr Gwasanaeth yn gweithredu fel Pennaeth Gwasanaeth am gyfnod fel bo'r newidiadau yn parhau i gael eu cyflwyno ac y gallwn ni barhau i ddatblygu a darparu gwasanaethau effeithiol. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth newydd yn dechrau ar ei swydd ym mis Hydref.

- **newid ffocws y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r modd mae'r gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu**

  Bu 2010/11 yn gyfnod o newid sylweddol o ran rheoli'r Gwasanaethau Plant. Penodwyd Pennaeth Gwasanaeth newydd.

Rhoddodd hyn gyfle i ni ailedrych ar ein gweledigaeth a'n gwerthoedd gyda'r staff, ac i ystyried a datblygu ein cyfeiriad. Byddwn yn adolygu ein trefniadau strwythurol yn 2011/12 yn sgîl y gwaith hwn. Bydd y strwythur newydd yn sicrhau canolbwyntio ar arferion proffesiynol. Bydd gweithgarwch gwaith achos yn cael ei gryfhau hefyd, gyda phrosesau sicrwydd ansawdd newydd.

- **gweithio'n gydweithredol ar draws y rhanbarth**

  Byddwn yn parhau i gydweithredu yng nghyswllt amrediad o wasanaethau yn ystod 2011/12. Mae hyn yn cynnwys gwaith un uned comisiynu, caffael a monitro rhanbarthol ar gyfer lleoliadau preswyl cost uchel i oedolion a phlant. Disgwyliwn i hyn wella ansawdd lleoliadau yn ogystal â bod yn fwy effeithlon yn ariannol.

I grynhoi, rydyn ni'n sylweddoli bod gennym ni lawer o gryfderau yn ogystal â nifer o feysydd i'w datblygu. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'n gwasanaethau a'n blaenoriaethau wrth symud ymlaen.

Cyrchu gwasanaethau

Mae ein Tîm Cyswllt Cyntaf yn darparu un pwynt cyswllt â'n gwasanaethau, ac yn cyfeirio unigolion at wasanaethau amgen lle bo'n briodol. Maen nhw'n derbyn ymholiadau a chyfeiriadau ac yn rhoi cyngor a gwybodaeth. Maen nhw'n darparu system ddiogel o dderbyn atgyfeiriadau amddiffyn plant ac oedolion bregus. Nhw sy'n gyfrifol am y sgrinio cychwynnol i adnabod anghenion yr unigolyn, a'u cyfeirio at y tîm priodol neu'r asiantaeth allanol priodol.

Rydyn ni'n darparu gwybodaeth o'r radd flaenaf i'r cyhoedd ar ffurf taflenni, posteri a llythyrau i ddefnyddwyr y gwasanaeth a thrwy'r wasg a'n gwefan. Cyhoeddir gwybodaeth mewn iaith syml yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac mae ar gael mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais i'r perwyl hynny. Mae hyn yn cynnwys Braille a chryno ddisg. Rydyn ni'n arddangos gwybodaeth mewn derbynfeydd a Siopau Un Alwad, ac mae ein Tîm Cyswllt Cyntaf yn anfon gwybodaeth at ddefnyddwyr y gwasanaeth a'r cyhoedd os gwneir cais. Mae gennym ni fannau cyswllt aml-asiantaeth, yn cynnwys Hafan Lles ym Mhrestatyn, y Gwasanaeth Gofal Lefel Uwch yn y Cartref yn ardal y glannau, a'r Gwasanaeth Ymateb ac Ailsefydlu. Mae'r staff yn wybodus iawn a chredaf bod y gwasanaeth yn gweithio'n dda.

Byddwn yn edrych ar sut y gallwn gryfhau'r modd mae pobl yn gweithio ar draws ein gwasanaethau yn 2011/12. Bydd hyn yn cynnwys gwneud yn siwr bod staff gwaith cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol ar gael ar gyfer y broses sgrinio gychwynnol, ac adolygu pa mor effeithiol rydyn ni'n cyfeirio pobl at wasanaethau eraill.

Gwasanaethau Oedolion

Ein nod ydy cynorthwyo pobl i fyw yn eu cartref eu hunain, lle bynnag y bo'n bosibl. Gall hyn gynnwys:

- darparu gofal a/neu gymorth yng nghartref unigolyn;
- seibiant byr;
- addasu'r cartref a rhoi offer arbennig;
- gwasanaethau dydd, a
- cyngor am fudd-daliadau a sut i'w hawlio.

Rydyn ni'n helpu pobl trwy ddarparu gofal mewn cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio hefyd.

Yn ystod 2010/11 dechreuwyd ar raglen uchelgeisiol i weddnewid gofal cymdeithasol i oedolion yn Sir Ddinbych. Mae'r rhaglen yn defnyddio dull sy'n ystyried gofal cymdeithasol o safbwynt y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'r deilliannau maen nhw'n eu dymuno.

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2011/12

Mae ein cynllun busnes cynhwysfawr yn nodi sut y byddwn yn datblygu gwasanaethau i ymateb i'r heriau rydyn ni'n eu wynebu. Ein blaenoriaethau ni ydy:

- cryfhau'r gwasanaethau ymateb cyntaf;
- sefydlu swyddfeydd ardal leol;
- symleiddio'r llwybr i ddefnyddwyr y gwasanaeth a gwreiddio'r egwyddor o un unigolyn cyswllt (neu un tîm ar y mwyaf) i ddefnyddwyr y gwasanaeth gyfathrebu efo nhw;
- lleihau biwrocratiaeth i alluogi ymarferwyr i dreulio o leiaf 50% o'u hamser ar waith cyswllt/ymateb uniongyrchol;
- datblygu a defnyddio ein system rheoli perfformiad i ganolbwyntio ar ansawdd a deilliannau – y pethau sydd o bwys i ddefnyddwyr y gwasanaeth a'r Cyngor;
- gweithio ag awdurdodau lleol eraill yng ngogledd Cymru i ddatblygu dull talu ffioedd i gartrefi gofal sy'n creu cysondeb tra'n adlewyrchu'r farchnad leol a'r problemau yma yn Sir Ddinbych;

- mynd i'r afael â chyfradd y bobl sy'n cael eu lleoli mewn cartrefi gofal o'i gymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru (mae'r gyfradd yn uchel ar hyn o bryd a'n nod ydy lleihau hyn trwy ddarparu gwasanaethau amgen da yn y gymuned), a
- newid ffocws gofal dydd i fod yn wasanaeth gweithgareddau yn ystod y dydd sy'n cynyddu annibyniaeth pobl.

Pobl hŷn

Y brif her i wasanaethau pobl hŷn ydy rheoli effaith y cynnydd yn niferoedd y bobl hŷn yn y sir. Mae dros 20% o boblogaeth Sir Ddinbych yn 65 oed ac hŷn. Y cyfartaledd yng Nghymru ydy 17.8%. Mae cynnydd cyflym yn nifer y bobl dros 80 oed, a'r ffaith bod mwy na 60% o bensiynwyr yn byw ar eu pennau eu hunain, yn arwain at angen i ddatblygu gwasanaethau sy'n hybu annibyniaeth a lles yn ogystal ag ymateb i anghenion gofal tymor hir mwy cymhleth.

Addasu gwasanaethau i ymateb i'r newid demograffig yw un o'n blaenoriaethau. Rydw i'n falch iawn o'r hyn rydyn ni wedi ei gyflawni hyd yma. Rydyn ni wedi gweithio'n agos â phobl hŷn i ddatblygu ein gwasanaethau, sy'n cynnwys ystod o fentrau yn y gymuned – Awch am Fywyd, Urddas mewn Gofal a Telegyfeillion – pob un o'r rhain yn cynnwys pobl hŷn yn y broses o ddylunio a chyflenwi gwasanaethau.

Rydyn ni wedi gweithio'n agos â gwasanaethau eraill yn y Cyngor, yn cynnwys y Gwasanaethau Tai, ac yn ystod 2010/11 datblygwyd rôl wardeiniaid fel rhan o'n dull ailalluogi a datblygwyd tai gwarchodol fel canolbwynt gwasanaethau i'r gymuned ehangach. Gwnaethom weithio'n agos â'r Gwasanaethau Hamdden hefyd i hyrwyddo hygyrchedd gweithgareddau i bobl hŷn sy'n byw yn y gymuned nad ydyn nhw'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol. Datblygwyd mentrau fel gweithgareddau chwaraeon dŵr i'r rhai dros 50 oed ar y Marine Lake yn y Rhyl, a gweithgareddau hamdden i bobl mewn gwasanaethau dydd a chynlluniau Gofal Ychwanegol yn 2010/11. Mae cynlluniau Gofal Ychwanegol yn weithredol yn y Rhyl a Phrestatyn erbyn hyn, ac mae un wrthi'n cael ei ddatblygu yn Rhuthun a chynlluniau'n bodoli i adeiladu cynllun Gofal Ychwanegol yn Ninbych hefyd.

Yn gyffredinol rydw i'n falch bod y gwasanaethau'n cael eu hystyried fel rhai o safon da/uchel, a'u bod yn plesio defnyddwyr y gwasanaeth a'u gofalwyr. Mae ein prosesau rheoli gofal wedi eu datblygu'n drylwyr, ac mae hyn yn cynnwys asesu, cynllunio gofal ac adolygu gofal unigolion.

Talwyd sylw penodol i wella cysondeb a chynnal adolygiadau yn amserol yn 2010/11.

"Trefnodd [fy ngweithiwr cymdeithasol] gymhorthydd siopa a glanhawr a dweud wrthyn ni sut i gael gafael ar arddwr a Phryd ar Glud. Doedd dim byd yn ormod o drafferth iddo a, gan nad ydw i mor siarp ag roeddwn i'n arfer bod, roedd o'n amyneddgar iawn yn esbonio pethau yn fanwl i mi. Mae'r trefniadau hyn wedi codi baich oddi arna' i ac rydw i'n hynod o ddiolchgar." ***Adborth defnyddiwr gwasanaeth.***

Rydyn ni'n parhau i weithio'n agos â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sy'n rhannu llawer o'r un heriau â ni. Rydyn ni wedi parhau i berfformio'n dda gyda'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol i alluogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty, ac mae gennym ni nifer o wasanaethau ar y cyd. Mae hyn yn cynnwys dwy bartneriaeth allweddol – y Gwasanaeth Offer Cymunedol a'r Gwasanaeth Ymateb ac Ailsefydlu.

Cynigir y Gwasanaeth Offer Cymunedol mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae'n darparu ystod eang o offer – megis Teleofal – sy'n cynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol yn y gymuned.

Mae'r Gwasanaeth Ymateb ac Ailsefydlu yn dîm aml-ddisgyblaeth a'i nod ydy atal derbyn unigolion i'r ysbyty neu gartref gofal yn amhriodol. Mae'r Gwasanaeth hwn yn hwyluso rhyddhau cleifion o ysbytai a chartrefi gofal hefyd.

Bu ein tîm integredig lleol yn gweithredu am y tro cyntaf yn 2010/11 o Hafan Lles, Prestatyn. Mae ystod o staff sy'n gweithio â phobl hŷn yn bennaf wedi eu lleoli gyda'i gilydd i roi un pwynt cyrchu gwasanaethau ym Mhrestatyn. Mae'r model hwn wedi ffurfio'r sylfaen ar gyfer datblygu ein timau ardal ar draws Sir Ddinbych.

Iechyd meddwl yr henoed

Rydyn ni wedi cryfhau ein gwasanaethau i bobl hŷn ag anghenion iechyd meddwl eleni. Sefydlwyd dau grŵp llwyddiannus iawn yng Ngorwel Newydd (y cynllun Gofal Ychwanegol yn y Rhyl) sy'n dod â defnyddwyr y gwasanaeth iechyd meddwl henoed a thrigolion Gorwel Newydd ynghyd. Hefyd rydyn ni wedi ymestyn y gefnogaeth i'r rhai sy'n gofalu am bobl â dementia trwy ddarparu gweithgareddau dydd. Mae'r dulliau hyn yn symud oddi wrth y modelau traddodiadol o ofal dydd i'r henoed ag anghenion iechyd meddwl.

Comisiynwyd gwasanaethau arbenigol fel y prosiect ABBA trwy'r rhaglen Cefnogi Pobl ar gyfer pobl hŷn ag anghenion penodol, fel y rhai â dementia, i'w cynorthwyo i aros yn eu cartref yn ddiogel gyhyd ag y bo modd. Defnyddiwyd cyllid Gofal Iechyd Parhaus yn effeithiol i ddarparu un pwynt cyrchu gweithwyr cymorth dementia ac iechyd meddwl henoed. Fel rhan o'r trefniadau mae staff cymorth arbenigol yn gweithio efo pobl â dementia i'w cynorthwyo i aros yn eu cymuned eu hunain yn ddiogel. Mae datblygiadau fel y rhain yn hanfodol bwysig wrth i nifer y bobl â dementia sy'n byw yn y gymuned barhau i gynyddu.

Pobl ag anableddau dysgu

Mae'r boblogaeth oedolion ag anableddau dysgu yn cynyddu'n gyflym hefyd gan fod pobl ag anableddau dysgu'n byw yn hirach ac mae mwy o fabanod wedi eu geni ag anghenion cymhleth yn goroesi i fod yn oedolion. Mae gennym ni nifer gynyddol o bobl hŷn ag anableddau dysgu a phobl ieuengach ag ymddygiad heriol ac anghenion corfforol eraill.

Nid yw'r adnoddau'n cynyddu ar yr un gyfradd a nifer y bobl ag anableddau dysgu, ac mae yna alw am wasanaethau mwy personol. Golyga hyn bod defnyddiwr y gwasanaeth yn cael mwy o reolaeth dros y gwasanaethau mae'n ei dderbyn. Rydyn ni'n newid ein gwasanaethau mewn ymateb i hyn, ac rydw i'n falch iawn o'r hyn rydyn ni wedi ei gyflawni hyd yma.

Rydyn ni wedi datblygu dulliau newydd o letya pobl. Mae'r datblygiadau yn cynnwys y cynllun Key Ring, lleoli oedolion, gwasanaethau byw yn y gymuned arbenigol (er enghraifft ar gyfer pobl ag anabledd dysgu sy'n dioddef o dementia), Byw'n Annibynnol â Chefnogaeth Ddwys, a gwasanaethau allgymorth i'r rhai sy'n medru byw yn gymharol annibynnol. Yn ystod 2010/11 cynlluniwyd cynllun tai newydd sy'n darparu tai â chefnogaeth lefel isel i 5 oedolyn ag anableddau dysgu. Mae'r cynllun hwn yn wahanol i'r gefnogaeth ddwys ar y safle 24 awr y dydd a gynigir trwy'r cynlluniau byw yn y gymuned a'r model Key Ring a oedd yn bodoli eisoes.

Cynllunio sy'n rhoi'r unigolyn yn ganolog ydy'r allwedd i waith llwyddiannus ein gwasanaethau anabledd dysgu. Ein nod ydy gwneud yn siwr bod pob asesiad a chynllun gofal wedi eu teilwra i anghenion yr unigolyn bob tro.

“Dymuna ‘Sian’ ddweud DIOLCH YN FAWR IAWN am eich Chynllun Rhoi’r Unigolyn yn Ganolog. Mae hi wrth ei bodd efo’r canlyniad ac wedi ei ddangos i bawb mae hi’n eu hadnabod. Mae’r llun… yn dangos meddylgarwch arbennig ac mae’n golygu llawer i ‘Sian’ – mae hyd yn oed yn cynnwys ei byji ‘Bernard’! Hoffai ‘Sian’ i chi gael gwybod ei bod hi wedi mwynhau’r cyfarofd yn fawr ac roedden ni i gyd yn teimlo ei fod yn gynhyrchiol ac adeiladol iawn. Unwaith eto, diolch yn fawr am eich holl help, caredigrwydd a meddylgarwch.”
Adborth gan berthynas defnyddiwr gwasanaeth.

Cynhaliwyd cynllun peilot Cymorth Dan Gyfarwyddyd y Dinesydd (ffordd o ddarparu cymorth sy’n cael ei seilio ar ddewis y defnyddiwr gwasanaeth yn hytrach na’r gwasanaethau sydd ar gael) y llynedd ac roedd y gwerthuso wedi ei seilio ar brofiadau defnyddwyr y gwasanaeth, gofalwyr a staff. Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn a byddwn yn lledaenu’r dull gweithredu hwn ar draws y gwasanaeth yn awr.

Gwasanaethau i bobl ag anabledd corfforol a phobl am nam ar y synhwyrau

Rydyn ni’n gweithio ag oedolion ag anabledd corfforol, nam ar y synhwyrau, neu salwch cronig a/neu heriau eraill yn eu bywyd. Ein nod ydy hyrwyddo annibyniaeth ac annog cymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon i bobl o bob oedran.

Rydyn ni’n ceisio ‘ailalluogi’ pobl bob tro. Mae’r term yma yn cyfeirio at ein dull o gefnogi pobl i adfer eu sgiliau, eu hyder a’u hannibyniaeth. Datblygwyd strategaeth ailalluogi a chynllun gweithredu cysylltiedig sy’n nodi’r weledigaeth ar gyfer ailalluogi yn Sir Ddinbych. Mae’r strategaeth (Symud Ymlaen) yn canolbwyntio ar ddatblygu a chynnal gwasanaethau i gefnogi pobl fregus, a’u galluogi i aros yn eu cartref eu hunain, gydag urddas a pharch, am gyhyd ag y bo modd.

Mae therapyddion galwedigaethol yn ychwanegu gwerth at y gofal cymdeithasol, gan ddarparu arbenigedd wrth ddarparu ystod eang o wasanaethau, er enghraifft:

- ailalluogi ac ailsefydlu yn y gymuned;
- asesu a gwella hyder unigolion wrth ddefnyddio offer a dyfeisiau technoleg cynorthwyol yn effeithiol;
- darparu cartrefi hygyrch trwy ddylunio addasiadau priodol mewn cartrefi, a
- hyfforddi eraill i symud o ddull gofalu i ddull ailalluogi, er enghraifft, trwy weithio â Gwasanaeth Wardeiniaid Tai wrth ddatblygu’r gwasanaeth ‘Law yn Llaw’.

Buom yn gweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn 2010/11 i ddatblygu proses tendr ar y cyd i ddarparwyr cynlluniau cefnogi Taliadau Uniongyrchol (lle mae'r arian yn mynd yn uniongyrchol i ddefnyddiwr gwasanaeth yn hytrach nag ariannu'r gwasanaethau rydyn ni'n penderfynu arnyn nhw). Rydyn ni wedi ymgynghori'n dda â defnyddwyr y gwasanaeth i ddatblygu'r dull hwn. Gwelwyd nifer sylweddol o bobl ag anableddau corfforol yn manteisio ar hyn, ond mae angen gwneud rhagor o waith i wneud yn siwr bod grwpiau cleientiaid eraill yn gwneud y mwyaf o'r gwasanaeth hwn. Rydyn ni wedi ymestyn y cynllun i bobl na fedrant wneud penderfyniadau drostynt eu hunain trwy benodi unigolyn priodol a datblygu 'cyfrifon wedi eu rheoli'.

"Mae Taliadau Uniongyrchol wedi rhoi mwy o ryddid ac annibyniaeth i mi." *Adborth defnyddiwr gwasanaeth.*

Rydyn ni'n comisiynu gwasanaethau ansawdd uchel gan ddarparwyr annibynnol yn cynnwys y Gymdeithas Sglerosis Ymledol a Chymdeithas y Byddar Gogledd Cymru. Rydyn ni'n gweithio â sefydliadau eraill i ddarparu gwasanaethau hefyd, yn cynnwys Vision Support a Gofal a Thrwsio Sir Ddinbych.

Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu llety Byw'n Annibynnol â Chefnogaeth Ddwys yn Henllan, a fydd yn darparu llety â chefnogaeth i bedwar unigolyn ag anableddau corfforol erbyn mis Mawrth 2012. Bydd hyn yn rhoi dewis i bobl ag anableddau corfforol cymhleth fyw'n lleol yn hytrach na symud y tu allan i Sir Ddinbych fel sydd wedi digwydd yn flaenorol. Rydw i wrth fy modd ein bod ni'n symud ymlaen â'r datblygiad hwn – ni fu'n hawdd cyflawni hyn.

Pobl ag anghenion iechyd meddwl

Mae mwy o achosion o bobl â salwch meddwl yn Sir Ddinbych nag yn ardaloedd awdurdodau lleol eraill gogledd Cymru. Rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu cyngor a chefnogaeth i bobl sy'n dioddef o salwch meddwl, a'u teuluoedd.

Mae grŵp perfformiad ac ansawdd gwasanaethau iechyd meddwl wedi hen ymsefydlu yn Sir Ddinbych. Fodd bynnag, ni chyfarfu'r grŵp yn gyson yn ystod y flwyddyn a byddwn yn ceisio cryfhau'r trefniadau hyn yn 2011/12.

"Mae'r staff yn dangos gofal go iawn tuag atom ni, ac maen nhw'n llawn cymorth os oes gennych chi broblem i'w datrys na benderfyniad anodd i'w wneud ……"
Adborth defnyddiwr gwasanaeth

Mae'r gwasanaethau iechyd meddwl yn cael eu harwain gan y Bwrdd Iechyd, ond mae'n bwysig bod cynllunio'r gwasanaeth yn parhau i gydnabod rôl gwasanaethau llywodraeth leol yn cynorthwyo adferiad iechyd pobl â salwch meddwl. Er enghraifft, mae cymorth gofal cymdeithasol, gwasanaethau tai a chyfleoedd cyflogaeth yn hanfodol bwysig i bobl ag anghenion iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio'n gyson ar adferiad iechyd yn hytrach na salwch. Rydyn ni wedi bod yn gweithio â'r Bwrdd Iechyd i gynnwys persbectif gofal cymdeithasol cryf yn y broses o ailstrwythuro gwasanaethau iechyd meddwl lleol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod yr angen i ofal cymdeithasol arwain ar faterion iechyd meddwl, a byddwn yn parhau i weithio ar hyn yn 2011/12.

Camddefnyddio sylweddau

Mae camddefnyddio sylweddau yn cael effaith sylweddol ar fywydau llawer o blant a theuluoedd sy'n cael eu cyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn aml mae'n ffactor allweddol mewn achosion amddiffyn plant a cham-drin yn y cartref. Mae camddefnyddio sylweddau yn faes cymhleth oherwydd yr ystod eang o anghenion a mathau o wasanaethau sy'n ofynnol i ymdrin â nhw. Mae atal camddefnyddio sylweddau yn bwysig, a'n nod ydy gwneud yn siwr bod pobl yn gwybod lle y gallan nhw gael cymorth a chefnogaeth. Rydyn ni'n gweithio â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol i gynnig y gwasanaethau hyn.

Mae Lloches Nos y Rhyl yn darparu amgylchedd diogel i bobl digartref a'r rhai sy'n camddefnyddio sylweddau. Ei nod ydy lleihau nifer y bobl ddigartref a throsedd ac anhrefn mewn un rhan o'r Rhyl.

Rydyn ni'n ceisio helpu'r rhai sy'n camddefnyddio sylweddau i leihau'r niwed maen nhw'n ei achosi iddyn nhw eu hunain, eu teuluoedd a chymunedau. Mae dull aml-asiantaeth gadarn o ymdrin â chamddefnyddio sylweddau – amddiffyn unigolion a chymunedau trwy weithgareddau gorfodaeth, yn ogystal â gweithio â'n partneriaid i ymdrin â phryderon yn ein trefi gyda'r nos ac yn ystod y nos.

Gofalwyr



Gwerthfawrogwn y gofalwyr ac rydyn ni'n sylweddoli bod hwn yn medru bod yn rôl heriol sy'n rhoi cryn bwysau ar unigolyn. Ein nod ydy gwella ansawdd bywyd gofalwyr trwy eu cefnogi i gyflawni eu potensial fel eu bod nhw a'r bobl maen nhw'n gofalu amdanyn nhw yn cael boddhad yn eu bywydau.

Gwnaethom barhau i weithredu ein Strategaeth Gofalwyr yn 2010/11, ac rydyn ni'n darparu mwy o wasanaethau i ofalwyr nag erioed o'r blaen. Rydyn ni wedi datblygu detholiad o wybodaeth a gwasanaethau, yn cynnwys darparu cyfleoedd i ofalwyr gael seibiant o'u cyfrifoldebau gofalu. Bu gwelliannau sylweddol i'r gwasanaeth dros y blynyddoedd diwethaf, yn cynnwys penodi Swyddog Comisiynu ar gyfer Gofalwyr, Cynllun Peilot penodol ar gyfer Aseswyr Gofalwyr, Cynllun Cerdyn Argyfwng Gofalwyr, Cynllun Peilot Gweithiwr Gofalwyr Iach a gwedudalen benodol i ofalwyr.

Serch hynny, mae galw am wasanaethau'r Aseswyr Gofalwyr wedi arwain at restr aros, ac rydyn ni yn y broses o ddatblygu ein systemau fel eu bod yn adlewyrchu lefel y cymorth a ddarperir i ofalwyr yn fwy cywir. Mae'r rhain yn feysydd y byddwn ni'n gweithio arnyn nhw i'w gwella yn 2011/12.

Amddiffyn Oedolion Bregus (POVA)

Mae dyletswydd arnom ni i amddiffyn oedolion bregus ac ymchwilio i sefyllfaoedd lle gallai oedolyn bregus fod mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Rydyn ni'n gweithio ag amrediad o bobl, yn cynnwys yr Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac asiantaethau eraill, i amddiffyn oedolion bregus rhag niwed. Rydyn ni hefyd yn gweithredu i amddiffyn unrhyw un sydd wedi dioddef camdriniaeth, neu y mae eu lles yn debygol o ddioddef heb ragor o ymyriad neu wasanaethau.

Roedd Miss Q yn byw yng Nghartref Z. Canfu'r nyrs ardal fod ganddi friwiau gwasgu difrifol, ac y dylid bod wedi ei galw yn llawer cynt i'w trin nhw. Hysbysodd y nyrs am yr achos, trwy'r gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion Bregus, fel achos o esgeuluso posibl gan nad oedd y cartref wedi galw am y cymorth meddygol priodol. Mae'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymchwilio'r achos, ac mae'n parhau i ystyried a ddylid erlyn ai peidio. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cynnal adolygiad o bawb sy'n parhau i fyw yn y cartref gofal hwn i sicrhau eu iechyd a'u lles nhw.

Rydyn ni'n perfformio'n dda yn erbyn y dangosydd perfformiad cenedlaethol sy'n mesur p'un ai ydy'r risg yn cael ei ddileu neu ei reoli mewn achosion Amddiffyn Oedolion Bregus. Byddwn yn cryfhau'r sefyllfa hon trwy'r gwaith a wnaed i wella'r ffordd yr asesir y risg fel rhan o'n broses asesu unedig, a'r systemau sydd gennym ni i wirio bod gweithredoedd y cytunwyd arnyn nhw fel rhan o'r broses Amddiffyn Oedolion Bregus yn cael eu rhoi ar waith.

Mae gennym ni raglen hyfforddiant gynhwysfawr i gynyddu ymwybyddiaeth am Amddiffyn Oedolion Bregus ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol. Rydyn ni wedi cytuno i ddatblygu Pwyllgor Amddiffyn Oedolion ar y cyd â Chonwy hefyd.

Byddwn yn gweithredu canllawiau Amddiffyn Oedolion Bregus diwygiedig yn 2011/12, ac yn cynnal arolwg ymhlith defnyddwyr y gwasanaeth/gofalwyr i sicrhau bod y gwasanaeth yn ateb anghenion oedolion bregus.

Tîm Gwaith Cymdeithasol Ysbytai

Mae'r Tîm Gwaith Cymdeithasol Ysbytai yn gweithio â llawer o weithwyr eraill i gefnogi pobl yn yr ysbyty a sicrhau bod rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn digwydd yn effeithiol a diogel. Mae'r Tîm yn cynnal asesiadau gofal yn y gymuned i oedolion dros 18 oed ac yn cynnig cyngor a chymorth emosiynol ac ymarferol i ddefnyddwyr y gwasanaeth, gofalwyr a'u teuluoedd. Mae'r gwasanaeth wedi parhau i weithio'n dda yn 2010/11 ac mae cyfradd yr oedi cyn rhyddhau o'r ysbyty yn parhau'n isel. Mae trefniadau cydweithredol yn bodoli ag awdurdodau cyfagos i letya gwasanaethau gwaith cymdeithasol arbenigol, megis gwaith cymdeithasol i gleifion canser a chleifion â chlefyd arennau.

Asiantaeth Datblygu Cymunedol

“Mae Dennis wedi mynd i’r afael â phori’r rhyngrwyd yn ogystal ag e-bost. Yn ystod un o’n sesiynau soniodd Dennis, a fu’n filwr yn ystod yr Ail Ryfel Byd, nad oedd wedi derbyn ei fedal ymgyrch Ciprys. Roedd o’n ystyried a oedd posibilrwydd iddo dderbyn ei fedal, a sut i fynd ati i’w chael. Ar ôl gwneud ychydig o waith ymchwil ar y rhyngrwyd daethom o hyd i wefan Veterans UK, a gweld bod y broses yn eithaf syml. Y cwbl oedd angen ei wneud oedd llenwi ffurflen a’i hanfon i’r Asiantaeth Cyn-swyddogion a Staff y Lluoedd Arfog yng Nghaerloyw. Bedair wythnos yn ddiweddarach fe ddois i i’r ganolfan i weld Dennis yn wen o glust i glust wrth iddo ddangos ei Fedal Ciprys i bawb.”
Dyfyniad gan aelod o staff yr Asiantaeth Datblygu Cymunedol.



Mae’r Asiantaeth Datblygu Cymunedol yn cynnig cymorth i ystod o fentrau cymunedol, gan feithrin arweinyddiaeth yn y gymuned a phawb yn cefnogi ei gilydd. Mae hyn yn cynnwys mentrau sy’n lleihau arunigedd cymdeithasol ac yn hyrwyddo defnyddio cyfrifiaduron. Rydyn ni’n llwyddo i roi cymorth i fwy o bobl fregus yn eu cymuned, ar y cyd â chynlluniau wedi eu cyllido trwy grant neu arian Ewropeaidd, fel nad oes arnynt angen gwasanaethau statudol.

“Mae’n wasanaeth rhagorol a chyfeillgar iawn. Mae helpu pobl gyffredin i ddatblygu eu sgiliau cyfrifiadurol yn hanfodol bwysig y dyddiau hyn, ac rydw i’n credu bod natur gyfeillgar eich staff yn elfennol yn hyn.”
Adborth defnyddiwr gwasanaeth.

Mae’r Asiantaeth Datblygu Cymunedol yn darparu gweithgareddau cymdeithasol hygyrch mewn ardaloedd yn Sir Ddinbych lle mae pobl yn fwy tebygol o fod yn amddifadus. Mae hyn yn cynnwys galluogi unigolion a grwpiau cymunedol i ddefnyddio adnoddau technoleg gwybodaeth a chael cyngor a chymorth sut i’w defnyddio’n gywir. Mae cynnwys y tîm mewn mentrau sy’n ymwneud â newid demograffig y tu allan i’r Rhyl wedi bod yn gam cadarnhaol, er enghraifft, y prosiect ‘Y Dafarn yn ganolbwynt’ yng Nghorwen.

Tîm Hawliau Lles

Mae Tîm Hawliau Lles Sir Ddinbych yn wasanaeth sy'n darparu gwerth am arian trwy sicrhau adnoddau a gwella lles defnyddwyr y gwasanaeth, yn ogystal â gweithredu Strategaeth Gwrth Dlodi Sir Ddinbych a chynnal y Rhwydwaith Gwrth Dlodi. Mae'r Tîm Hawliau Lles a Gwrth Dlodi yn parhau i gynnig cyngor i ddefnyddwyr y gwasanaeth, tenantiaid tai cyngor a phobl mewn tlodi i wella eu hansawdd bywyd ariannol a'u lles cyffredinol.

"Yr unig beth fedra i ei ddweud ydy bod y gwasanaeth a gawson ni gennych chi wedi gwella ein ffordd o fyw y tu hwnt i'n dychymyg, o ran ein iechyd a'n lefel cyfforddusrwydd. Diolch o galon."
Darn o ffurflen adborth defnyddiwr gwasanaeth Hawliau Lles.

Mae'r tîm yn gyfrifol am gontractau â Chyngor ar Bopeth (CAB) Sir Ddinbych a Siop Cyngor ar Fudd-daliadau y Rhyl, sy'n darparu gwasanaethau cyflenwol. Y bartneriaeth hon ydy'r gyntaf yn y Deyrnas Unedig i dracio nifer y bobl sy'n cael eu codi uwchben llinellau tlodi'r Deyrnas Unedig. Mae'r tîm hefyd yn trefnu ac yn cadeirio Rhwydwaith Rhoi Cyngor Sir Ddinbych sy'n cyfarfod bob 3 mis i rannu arferion da a chynnal hyfforddiant, cyhoeddusrwydd a gwaith ar y cyd. Cefais fy mhlesio yn arbennig o weld y gwaith a wnaed i fynd i'r afael â thlodi plant, fel rhan o'r cynllun peilot Teuluoedd yn Gyntaf.

Tîm Cefnogi Pobl

Mae gennym ni Strategaeth Cefnogi Pobl effeithiol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu ystod eang o wasanaethau cefnogol yn gysylltiedig â thai. Mae'r rhain yn cynnwys helpu pobl i reoli eu cyllideb a rheoli eu perthynas â'u cymdogion. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynyddu nifer y bobl a gynorthwyir i barhau i fyw'n annibynnol ac yn atal pwysau ar wasanaethau statudol.

Rydyn ni'n awyddus i weld y dulliau hyn yn cael eu datblygu ymhellach yn 2011/12 gan eu bod yn ffordd gost effeithiol o ddarparu cymorth. Rydw i'n bryderus y gallai newidiadau i'r modd y rhennir adnoddau Cefnogi Pobl yng Nghymru gael effaith negyddol ar y gwasanaethau y medrwn ni eu darparu.

Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Mae Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Sir Ddinbych wedi ymrwymo i wella cyfleoedd bywyd y plant, pobl ifanc a theuluoedd mwyaf bregus yn Sir Ddinbych. Ein nod ydy galluogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i fyw'n ddiogel yn eu cymunedau a gwneud yn dda yn yr ysgol, er enghraifft, sef yr hyn rydyn ni oll yn ei ddeisyf i'n plant.

Rydyn ni wedi bod yn edrych ar y ffordd y cynllunir ac y darperir gwasanaethau plant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gwnaed hyn ar adeg pan oedd cynnydd amlwg yn nifer y plant a phobl ifanc a oedd yn dod i mewn i'r system achosion gofal a/neu'r system plant sy'n derbyn gofal. Rydyn ni wedi llwyddo i gynnal ein safonau perfformiad ym mwyafrif y meysydd ac yn 2011/12 byddwn yn canolbwyntio ar gynnal y perfformiad a gwella'r ansawdd. Byddwn yn cyflwyno strwythur diwygiedig y gwasanaeth hefyd.

Sefydlwyd cynllun peilot Teuluoedd yn Gyntaf yn 2010/11. Mae'r cynllun hwn yn golygu gweithio'n agos â staff Addysg ac Iechyd a chreu dull 'Tîm o gwmpas y Teulu' ar gyfer darparu gwasanaethau. Y nod ydy ymdrin â phroblemau'r teulu cyfan yn gynharach, a lleihau effaith y problemau hyn ar y plant.

Cynlluniwyd llu o weithredoedd ar gyfer 2011/12, ond ein blaenoriaethau ydy:

- amddiffyn plant bregus rhag niwed sylweddol;
- gweithio â theuluoedd bregus i osgoi anawsterau'n gwaethygu a lleihau'r risg o'r teulu'n chwalu;
- sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael profiad positif o'u lleoli'n barhaol â theuluoedd cariadus, sefydlog a diogel sy'n eu hannog i wireddu eu potensial a phontio'n llyfn i fyd oedolyn, a
- sicrhau bod plant ag anghenion ychwanegol cymhleth yn cael ystod o gyfleoedd i gyflawni eu potensial a chynhwysiant cymdeithasol yn eu teulu.

Diogelu ac amddiffyn plant

Un o brif gyfrifoldebau'r Gwasanaethau Cymdeithasol ydy amddiffyn plant rhag niwed a gweithredu i amddiffyn unrhyw blentyn y canfyddir ei fod wedi ei gam-drin, neu y mae ei les yn debygol o ddioddef heb ragor o ymyrraeth neu wasanaethau. Mae ein Tîm Dyletswydd ac Asesu yn rheoli'r systemau cyfeirio a dyrannu ac yn ymchwilio lle bo plentyn mewn perygl o ddioddef niwed, camdriniaeth neu esgeulustod. Ceisiwn wneud hyn mewn partneriaeth â theuluoedd, a chadw plant yn eu cartrefi eu hunain lle bynnag y bo'n bosibl.

Gwlewyd dirywiad yn ein perfformiad o ran cynnal asesiadau cychwynnol a chraidd yn 2009/10, felly sefydlwyd Prosiect Cyfeirio ac Asesu yn 2010/11 i adolygu'r trefniadau ynghylch sut rydyn ni'n ymdrin ag ymholiadau a chyfeiriadau am Wasanaethau Plant a Theuluoedd. Mae'n bleser gen i ddweud bod y gwaith hwn wedi arwain at wella ein perfformiad yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol ar adeg pan welwyd mwy o weithgarwch a phwysau ar y gwasanaeth. Llwyddodd hefyd i ddatblygu trefniadau trosglwyddo cliriach rhwng y Tîm Dyletswydd ac Asesu a'r timau gweithredol tymor hirach.

Mae ein Uned Diogelu ac Adolygu yn cymryd cyfrifoldeb am reoli ein prosesau amddiffyn plant. Mae gennym ni record rhagorol o adolygu achosion yn unol â'r amserlen, er enghraifft, cynhaliwyd 100% o'r cyfarfodydd adolygu amddiffyn plant yn unol â'r amseroedd penodedig eleni.

Rydyn ni'n gweithio ag amrediad o bobl, yn cynnwys yr Heddlu, ysgolion a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, i ddiogelu plant a hybu eu lles. Enghraifft dda o hyn ydy Bwrdd Lleol Diogelu Plant Conwy a Sir Ddinbych – fforwm aml-asiantaeth sy'n cydlynu sut mae gwasanaethau amddiffyn plant yn cael eu cynllunio, eu darparu a'u monitro.

Mae'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant ar y cyd rhwng Conwy a Sir Ddinbych wedi bodoli ers Mai 2008 ac mae'n gwneud yn siwr bod cysondeb o ran y ffordd mae'r holl brif asiantaethau yn ymdrin â diogelu ac amddiffyn plant. Eleni mae'r Bwrdd wedi cyflawni 80% o'i Gynllun Busnes, yn cynnwys cyflwyno system newydd i archwilio gwaith yr holl bartneriaid yn erbyn arferion diogelu da. Mae wedi gwella ei berfformiad yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru hefyd. Mae grŵp hyfforddiant y Bwrdd hefyd yn parhau i ddarparu hyfforddiant diogelu plant aml-ddisgyblaeth, o safon uchel, i'r holl asiantaethau sy'n gweithio â phlant ar draws y ddwy sir. Yn 2010/11 rhoddwyd sylw arbennig i gam-drin rhywiol, esgeuluso, cam-drin yn y cartref a throsolwg o'r ddeddfwriaeth gofal plant.

Fe wnawn ni barhau i weithio'n galed i ateb y galw cynyddol ar wasanaethau yn ystod y flwyddyn nesaf. Fe wnawn ni gynnal adolygiadau gweithgarwch amddiffyn plant fel y medrwn ni barhau i wella ansawdd a pha mor amserol ydy'r asesu, cynllunio ac adolygu. Byddwn yn ymgynghori â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd sydd wedi bod trwy'r broses amddiffyn plant a bydd gennym ddiddordeb mawr yng nghanlyniadau'r gwaith Teuluoedd yn Gyntaf – er enghraifft, y gwaith rydyn ni'n ei wneud i adnabod a chanfod lleoliad teuluoedd bregus.

Plant mewn angen a chymorth i deuluoedd

Rydyn ni wedi buddsoddi mewn amrediad o wasanaethau cefnogi teuluoedd a gwasanaethau therapiwtig yn ystod y blynyddoedd dweithaf. Mae'r rhain wedi helpu i osgoi tor-perthynas rhwng aelodau teulu ac wedi rhoi cymorth i blant a phobl ifanc a gafodd eu cam-drin. Rydyn ni'n gweithio gydag Addysg, y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yr Heddlu a'r Gwasanaethau Tai. Gyda'n gilydd llwyddwyd i sicrhau canlyniadau da i blant.

Mae'r Tîm Dyletswydd ac Asesu (a'r Tîm Plant ag Anableddau) yn cynnal asesiadau i benderfynu a ydy plentyn mewn angen, a pha fath o gymorth wnaiff ateb ei anghenion.

Lle bo anghenion y teulu yn galw am cymorth tymor hirach, mae'r Tîm Plant mewn Angen a'r Tîm Llysoedd yn gweithio'n agos â phlant a theuluoedd i ymdrin ag anawsterau a sicrhau, lle bynnag y bo modd, bod plant yn derbyn gofal yn ddiogel ac yn llwyddiannus gan eu teulu ac yn eu cymuned eu hunain.

Gwelwyd cynnydd mawr arall yn nifer y plant fu'n rhan o achosion gofal yn y llysoedd yn 2010/11. Mae gweithio'n agos â'r teulu a'r llysoedd i sicrhau diogelu'r plant hyn yn rhoi cryn bwysau ar y staff sy'n ymwneud â'r broses.

Byddwn yn adolygu ein Strategaeth Cymorth i Deuluoedd yn 2011/12 i geisio sicrhau bod ein gwasanaethau yn cyfateb i anghenion teuluoedd. Dylai hyn ein helpu i leihau nifer y plant sy'n cael eu hailgyfeirio neu sy'n mynd trwy achos gofal, ac arwain at wella cydlynu'r ymdrechion i gefnogi teuluoedd. Mae'r cynllun peilot Teuluoedd yn Gyntaf yn ein cynorthwyo i wneud hyn.

Rydyn ni'n cydnabod rôl hanfodol bwysig gofalwyr ifanc ac yn deall faint o bwysau mae hyn yn medru ei roi ar bobl ifanc. Rydyn ni'n adnabod anghenion gofalwyr ifanc trwy'r Fframwaith Asesu Plant mewn Angen ac asesiadau gofalwyr ifanc manwl.

Cydweithiwn yn agos ag asiantaethau a darparwyr eraill i wneud yn siwr ein bod yn ateb anghenion gofalwyr ifanc a'u teuluoedd.

Rhoddwyd Strategaeth Gofalwyr Ifanc y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, sy'n cynnwys cynrychiolwyr aml-asiantaeth, ar waith yn 2010/11. Mae hyn wedi ein cynorthwyo i adnabod a rhoi cymorth i bobl ifanc a chodi eu proffil. Rydyn ni'n parhau i weithio ag ysgolion i fonitro ac adolygu presenoldeb a chyrhaeddiad gofalwyr ifanc.

"Rydyn ni i gyd wedi elwa'n fawr o fewnbwn y Tîm Prosiect Atal a Therapiwtig. Roedd yn dda gwybod mai dim ond galwad ffôn oedd yn ofynnol petai arnom ni angen eu help nhw."
Adborth defnyddiwr gwasanaeth.

Gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag anableddau

Mae'r Tîm Plant ag Anableddau yn darparu gwasanaethau i helpu plant i leihau effeithiau eu hanabledd, eu hintegreiddio yn eu cymuned a rhoi cyfleoedd iddyn nhw wireddu eu llawn botensial.

"Roeddwn i'n bresennol yn y Diwrnod Hwyl i'r Teulu ddydd Sadwrn diwethaf i deuluoedd â phlant anabl 0-18 oed yn Sir Ddinbych, a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hamdden Dinbych. Roedd nifer dda yn y digwyddiad hwn ac roedd yn bleser gweld y plant yn cymryd rhan ac yn mwynhau eu hunain."
Rhan o lythyr darllenydd a gyhoeddwyd yn The Journal, 14 Gorffennaf 2010.

Dengys tueddiadau cenedlaethol bod proffil y plant anabl yn y boblogaeth yn debygol o gynyddu. Mae'r galw am wasanaethau yn uwch na'n hadnoddau, sy'n golygu bod potensial i beidio ag ateb anghenion. Rydyn ni'n wynebu heriau hefyd wrth fodloni anghenion rhai plant ag anghenion cymhleth iawn. Mae gennym ni nifer fechan o blant mewn lleoliadau arbenigol y tu allan i Sir Ddinbych o ganlyniad i hyn.

Rydyn ni'n cynnig amrediad o wasanaethau ehangach, yn ogystal â chymorth gwaith cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd i aros dros nos, gwaith prosiect â gofalwyr, taliadau uniongyrchol ac ariannu rhagor o gefnogaeth i blant anabl a'u rhieni/gofalwyr mewn cyfleusterau gofal dydd lleol.

Mae cefnogi'r cyfnod pontio yn gydran allweddol o'r gwasanaethau a ddarperir gan y tîm. Cefnogir a darperir hyn trwy'r gweithwyr cymdeithasol, gyda chymorth agos tîm o gydlynwyr pontio enwebedig. Y prif ganolbwynt wrth gefnogi pobl ifanc yn y cyfnod pontio ydy sicrhau cynllunio effeithiol i sicrhau bod eu anghenion i'r dyfodol yn cael eu hadnabod a'u nodi, a bod gwasanaethau hygyrch, priodol a di-dor yn eu lle.

Gwnaed llawer o waith yn 2010/11 i symud tuag at ddatblygu gwasanaeth integredig i blant anabl, wedi'i leoli yn Hyfrydle yn Ninbych. Bydd hyn yn ein galluogi i ddefnyddio prosesau cyfeirio, asesu a rheoli gofal integredig ar draws yr holl asiantaethau partner. Dylai hyn olygu nad oes raid i blant a'u teuluoedd adrodd eu hanes dro ar ôl tro.

Mae datblygu Protocol Cynllunio Pontio Conwy a Sir Ddinbych wedi ein helpu ni i wella asesu a darparu gwasanaethau ar draws sectorau. Disgwyliwn ddechrau gweithredu'r gwasanaeth integredig i blant anabl o safle Hyfrydle yn ystod 2011/12.

Plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal

'Plant sy'n derbyn gofal' ydy plant a phobl ifanc dan ofal yr awdurdod lleol oherwydd gorchymyn gofal a wnaed gan lys neu trwy gytundeb â'u rhieni. Mae'r Cyngor yn gweithredu fel 'rhiant corfforaethol' i sicrhau hybu eu iechyd a'u lles, a'u bod yn manteisio i'r eithaf ar eu cyfleoedd ac yn cyflawni eu llawn botensial.

Ymdrechwn i sicrhau bod gan blant a phobl ifanc leoliadau gofal parhaol, sefydlog a gofalgar sy'n cynorthwyo i gefnogi eu taith i fyd oedolion.

Mae tua 175 o blant sy'n derbyn gofal yn Sir Ddinbych, sydd wedi cynyddu ers 2009/10. Credwn bod y cynnydd wedi digwydd yn rhannol oherwydd bod gweithwyr proffesiynol yn fwy petrusgar wrth reoli risg. Mae pobl yn ymwybodol iawn o achosion o esgeulustod o ganlyniad i achosion proffil uchel yn y cyfryngau cenedlaethol. Mae hyn wedi arwain at fwy o bwysau ar y Timau Plant sy'n Derbyn Gofal a Gwaith Llys ac ar y gwasanaethau maethu a mabwysiadu. Er gwaethaf y cynnydd hwn mae'r gwasanaeth wedi parhau i wneud yn siwr bod gan blant sy'n derbyn gofal weithiwr cymdeithasol penodol, cynllun gofal cynhwysfawr a – lle bo'n bosibl ac yn briodol – yn cael eu lleoli mewn gofal maeth a weithredir gan yr awdurdod lleol.

Rydyn ni wedi parhau i adeiladu ar ein gwaith fel 'rhieni corfforaethol' yn 2010/11 ac rydyn ni'n cynnig amrediad dda o wasanaethau a gweithgareddau allgwricwlaidd. Mae'r Cynllun Hyrwyddwyr Addysg wedi cryfhau ac mae'r Tîm Gweithredu Corfforaethol yn parhau i gymryd diddordeb personol a rhagweithiol mewn gwella'r canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal sy'n ddisgyblion Blwyddyn 11.

Rydw i wrth fy modd bod cyfraddau presenoldeb yn yr ysgol plant sy'n derbyn gofal yn parhau i fod yn gadarnhaol, a bod saith o bobl ifanc yn debygol o fynd ymlaen i'r brifysgol yn 2011/12.

Mae'r Tîm Rhianta Corfforaethol yn gyfrifol am ddarparu cymorth gwaith cymdeithasol i'r holl blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Mae'r tîm yn gweithio'n agos â'r Gwasanaeth Maethu a Mabwysiadu, gofalwyr ac asiantaethau partner i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn gofal a chymorth o ansawdd uchel mewn lleoliadau priodol.

Fel mewn nifer o awdurdodau lleol eraill bu cynnydd yn nifer yr achosion gofal yn y llysoedd. Mae hyn wedi rhoi llawer o bwysau ar y dewis o leoliadau ar gyfer plant a'r trefniadau cyswllt dan oruchwyliaeth.

Bellach rydyn ni wedi adolygu'r trefniadau Cyswllt dan Oruchuwyliaeth i sicrhau bod y trefniadau yn addas, yn gynaliadwy ac yn rhoi profiad cadarnhaol i blant a'u teuluoedd. Mae hyn wedi arwain at drefniadau cyswllt mwy cydlynus ac effeithiol.

Rydyn ni'n cadw cysylltiad â phobl ifanc sydd wedi gadael gofal. Mae dyfarniad Southwark wedi creu galw cynyddol i gefnogi pobl ifanc ddigartref rhwng 16 – 17 oed. Rydyn ni wedi sefydlu prosesau a pholisïau clir â'r Gwasanaethau Tai i sicrhau bod pobl ifanc yn cael llety a chymorth addas.

Mae Gwasanaeth Cynghorydd Personol yn gweithio ochr yn ochr â'r Tîm Rhianta Corfforaethol, wedi'i gomisiynu trwy Barnardo's. Maen nhw'n gweithio'n agos â'r rhai sy'n gadael gofal i'w cynorthwyo i wireddu eu dymuniadau, a darparu'r hyn sy'n angenrheidiol i gael bywyd boddhaus fel oedolyn. Rydw i'n falch iawn bod y berthynas agos rhwng pobl ifanc, cynghorwyr personol a gweithwyr cymdeithasol yn golygu canlyniadau positif i'r rhai sy'n gadael gofal, gyda chyfran uchel o bobl ifanc Sir Ddinbych mewn cartref addas ac mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth pan wnaethant adael gofal.

Mabwysiadu a maethu

Mae'r cynnydd diweddar yn nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi rhoi mwy o bwysau ar y Gwasanaeth Maethu a Mabwysiadu. Rydyn ni wedi cynyddu nifer ein gofalwyr maeth yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf, sy'n golygu ein bod ni'n medru cyfateb anghenion plant unigol a'u gosod mewn cartrefi addas. Dim ond nifer fechan iawn o blant sy'n cael eu lleoli y tu allan i Sir Ddinbych. Mae gennym ni berthynas dda iawn â'n gofalwyr maeth. Darperir hyfforddiant, goruchwyliaeth a chymorth strwythuredig, sy'n lleihau'r risg o leoliad yn chwalu. Mae nifer cynyddol y plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn golygu y bydd angen ymgyrch arall i recriwtio gofalwyr maeth.

Mae darparu lleoliad addas i bobl ifanc yn eu harddegau a grwpiau mawr o frodyr a chwiorydd yn parhau i fod yn her fawr.

Roedd arolygiad blynyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru o'r Gwasanaethau Maethu a Mabwysiadu yn bositif iawn yn 2010/11, ac ni chyflwynwyd unrhyw ofynion ffurfiol ar y naill wasanaeth na'r llall.

Daeth Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn weithredol yn 2010. Cyflwynodd hyn rai heriau i ddechrau gan ei fod yn dod â chwe dull yn un. Fodd bynnag, mae'r trafferthion hynny wedi'u datrys yn awr. Mae'r gwaith yn parhau i sefydlu'r gwasanaeth yn llawn a byddwn yn gofalu ein bod yn cefnogi a datblygu'r gwasanaeth yn 2011/12.

Rydyn ni wedi gwella lefelau sefydlogrwydd lleoliad i blant. Er enghraifft, yn 2010/11 roedd canran y plant sy'n derbyn gofal a gafodd dri neu ragor o leoliadau mewn blwyddyn wedi lleihau i 4.6% o 5.37% yn 2009/10, o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o tua 9.7%. Rydyn ni'n recriwtio, hyfforddi a chefnogi ein gofalwyr maeth, sy'n lleihau'r risg o leoliadau'n chwalu. Mae gweithredu'r Strategaeth Lleoli a'r Strategaeth Recriwtio Gofalwyr Maeth wedi gweld cynnydd yn recriwtio gofalwyr maeth. Rydyn ni wrth ein boddau bod hyn wedi ein galluogi i leoli plant yn lleol yn llwyddiannus ym mwyafrif helaeth yr achosion.

Cefnogi'r gwasanaethau

Arweinyddiaeth a diwylliant

Nododd Adroddiad Gwella Blynyddol Sir Ddinbych gan Swyddfa Archwilio Cymru (Ionawr 2011) bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd arwyddocaol ers cyfnod cythryblus yn 2007/8. Roedd yn datgan bod "arweinyddiaeth dda yn gyrru newid, sy'n rhoi Cyngor Sir Ddinbych mewn lle da i gyflawni gwell deilliannau, er gwaethaf gwendidau presennol mewn rhai trefniadau." Y prif negeseuon yn yr adroddiad oedd bod "arweinyddiaeth y Cyngor yn dda ac yn gwneud gwahaniaeth. Mae'r Cyngor yn gwneud ei orau i weithio mewn partneriaeth ag eraill. Mae wedi gwella o ran datgan polisïau a blaenoriaethau clir ac mae'n newid y ffordd mae'n cynllunio ac yn adrodd yn ôl ar y cynnydd a wnaed. Serch hynny, mae gwendidau yn y modd mae'r Cyngor yn rheoli ei staff ond mae'n gweithio i wella hyn."

Mae uwch staff Gwasanaethau Cymdeithasol, yn cynnwys y Cyfarwyddwr, Penaethiaid Gwasanaeth a rheolwyr canol wedi cyfrannu'n dda at waith y Cyngor yn gyffredinol yn 2010/11, gan arwain a chefnogi rhaglenni gwaith corfforaethol.

Cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol

Mae'r gefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol i'r gwasanaethau cymdeithasol yn parhau'n gryf.

Mae blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, a fydd yn weithredol tan 2012, yn parhau i adlewyrchu'r materion sy'n arwyddocaol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hyn yn arbennig o wir o ran y flaenoriaeth Newid Demograffig. Trwy waith y Bwrdd Pobl a Lleoedd, dan arweiniad aelodau etholedig a'r Cyfarwyddwr Demograffeg, Lles a Chynllunio (sy'n Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol) rydyn ni'n gweithio'n galed i hybu annibyniaeth pobl hŷn a gwneud Sir Ddinbych yn lle da i bobl fynd yn hŷn ynddi.

Mae Cynllun MAWR Sir Ddinbych, sy'n cyfuno'r Strategaeth Gymunedol, y Cynllun Plant a Phobl Ifanc a'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles am y cyfnod 2011/14, yn dangos y pwysigrwydd a roir gan yr holl asiantaethau ar faterion blaenoriaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae deilliannau da i bobl hŷn, teuluoedd bregus, ffordd o fyw iach a chadw plant, pobl ifanc ac oedolion bregus yn ddiogel yn cynrychioli pedwar o'r wyth prif faes gwaith yn y cynllun.

Gweithlu

Mae gweithlu llawn cymhelliant ac wedi ei hyfforddi'n dda wrth graidd darparu gofal cymdeithasol da. Mae gennym ni weithlu ymroddgar a brwdfrydig. Rydyn ni'n gweithio ag asiantaethau partner i ddenu a chadw gweithlu cymwys a hyfforddedig. Rydyn ni wedi gweithio'n galed i godi proffil gofal cymdeithasol a'i wneud yn ddewis gyrfa cadarnhaol i bobl ifanc a phobl sy'n dychwelyd i weithio, trwy gyfrwng prosiect 'Llysgenhadon Gofal' Gogledd Cymru, er enghraifft. Gwnaethom fodloni'r holl dargedau hyfforddiant rhagnodedig yn 2010/11. Gwnaethom leihau ein dibyniaeth ar staff asiantaeth yn sylweddol a bellach dim ond nifer fechan o weithwyr cymdeithasol sy'n gweithio i ni trwy drefniadau asiantaeth. Hefyd aethom i'r afael â materion cynllunio olyniaeth yn ein timau rheoli yn ystod 2010/11. Roedd gennym ni nifer o staff a oedd yn nesau at oedran ymddeol ond nawr rydyn ni'n gwneud penodiadau'n llwyddiannus yn y strwythurau newydd.

Mae'r Bartneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn dangos dull cydweithredol cadarn o reoli a datblygu'r gweithlu. Mae'r bartneriaeth wedi bod yn effeithiol yn gwerthuso a nodi gweithredoedd gwella'r gweithlu i'r dyfodol i sicrhau bod ein cynlluniau i'r dyfodol yn effeithiol. Yn 2011/12 byddwn yn edrych am ragor o gyfleoedd i weithio ar y cyd â'n cymdogion o ran hyfforddiant a datblygu'r gweithlu.

Mae'r cyfraddau absenoldeb salwch wedi parhau i ostwng yn y Gwasanaethau Oedolion, ond gwelwyd cynnydd yn y lefelau absenoldeb salwch yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn 2010/11. Byddwn yn canolbwyntio ar leihau hyn yn 2011/12.

Systemau gwybodaeth

Systemau gwybodaeth effeithiol sy'n sylfaen i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol modern. Mae systemau Technoleg Gwybodaeth (TG) da yn ein galluogi i gofnodi gwybodaeth am gleientiaid, eu hanghenion a'r gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn mewn un lle. Golyga hyn bod yr wybodaeth wedi ei chydlynu, a'i bod yn cefnogi darparu gwasanaeth a'i fod yn hygyrch i'r rhai y mae angen iddyn nhw weld yr wybodaeth.

Fe wnaethon ni uwchraddio ein system TG (PARIS) yn 2010/11, a arweiniodd mewn lleihad o 25-30% yn yr amser a gymrwyd i gofnodi asesiadau gwasanaethau oedolion ar y cyfrifiadur. Mae angen gwneud rhagor o waith yn 2011/12 i leihau'r prosesau yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a sicrhau bod mwy o weithio'n agos â chynghorau eraill sy'n defnyddio'r un system TG â ni.

Perfformiad a sicrwydd ansawdd

Mae gennym ni brosesau cadarn yn eu lle i fonitro ein perfformiad ac ansawdd ein gwasanaethau, ac rydyn ni'n parhau i ymateb i'r hyn mae pobl yn ei ddweud wrthyn ni, fel y gallwn wella rhagor ar ein gwasanaethau.

Rydyn ni wedi sefydlu grwpiau rheoli ansawdd a pherfformiad yn yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r rhain yn golygu bod rheolwyr gweithredol yn gwerthuso perfformiad, adnabod gweithredoedd priodol a dulliau da o sicrhau gwella perfformiad. Mae hyn wedi bod yn hanfodol bwysig yn ein helpu i wella meysydd allweddol fel cynnal adolygiadau yn amserol yn y Gwasanaethau Oedolion a chynnal asesiadau cychwynnol a chraidd amserol yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

Rydyn ni wedi cynnwys defnyddwyr y gwasanaethau a gofalwyr yn y broses gwerthuso ein gwasanaethau fel rhan o'n dull sicrwydd ansawdd. Tra'n bod ni'n gwneud cynnydd da, gwyddom bod angen gwneud rhagor o waith yn 2011/12 i ddod ag ystod o fentrau a gweithgareddau sy'n digwydd yn weithredol ynghyd a'u datblygu ymhellach, a sicrhau cysondeb wrth ddilyn ein fframweithiau Sicrwydd Ansawdd ar gyfer ein gwasanaethau.

Cynnwys defnyddwyr a gofalwyr

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymrwymo i gynnwys ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. Rydyn ni'n eu cynnwys nhw wrth gynllunio gofal unigol, datblygu'r gwasanaethau, recriwtio staff ac, mewn rhai achosion, cynnal gwasanaethau.

Fe wnaethon ni geisio barn pobl hŷn yn rhagweithiol, a gwnaethant helpu i ddylanwadu ar y strwythur newydd a'r weledigaeth ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion eleni. Fe wnaeth adborth gan ddefnyddwyr a gofalwyr hysbysu ein gwerthusiad o'r cynllun peilot Aseswyr Gofalwyr hefyd, ac arweiniodd hyn at barhau i ddarparu'r gwasanaeth yn 2011/12. Yn dilyn y cynllun peilot Ailalluogi yn 2010/11 gwnaethom ofyn barn defnyddwyr y gwasanaeth i benderfynu pa mor effeithiol oedd y gwasanaeth a dylanwadodd hyn ar ledaenu'r gwasanaeth a'r Strategaeth Symud Ymlaen.

Mae cynnwys ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn natblygiad gwasanaethau ehangach yn faes i'w ddatblygu. Hefyd mae angen i ni ddatblygu cysondeb wrth roi adborth i'r rhai sydd wedi gwneud cyfraniad.

Byddwn yn cynnal hunan asesiad corfforaethol yn 2011/12 fel rhan o ymateb strategol y Cyngor i fod “yn nes at y gymuned”. Byddwn yn defnyddio canlyniadau’r hunan asesiad i ddatblygu cynllun gweithredu fel y gallwn wneud rhagor o welliannau i’r ffordd rydyn ni’n cynnwys pobl sy’n defnyddio ein gwasanaethau a’u gofalwyr.

Cynllunio a phartneriaethau

Yn 2010 lluniodd y Cyngor ei egwyddorion sut y dylai weithio â chynghorau a sefydliadau eraill yn y dyfodol mewn ‘Datganiad Cydweithredu’. Mae hwn yn rhoi ffocws clir ar gydweithredu lle byddai’n helpu i sicrhau gwelliannau.

Mae’r Cyngor yn cymryd rôl arweiniol mewn gweithio cydweithredol a mewn partneriaeth ar bob lefel. Mae ein Prif Weithredwr wedi cadeirio’r Bwrdd Caffael Cenedlaethol a chynrychioli Sir Ddinbych ar y Bwrdd Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi Cenedlaethol a’r Gweithgor Adolygu Adnoddau Rheng Flaen. Mae ein Cyfarwyddwyr yn cyfrannu at waith byrddau rhaglen rhanbarthol, yn cynnwys yr un sy’n ymwneud â Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae’r byrddau hyn yn adrodd yn ôl i Fwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol sy’n cynnwys Arweinyddion a Phrif Weithredwyr pob cyngor yng ngogledd Cymru, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth yn helpu’r Gwasanaethau Cymdeithasol i gynllunio a darparu gwasanaethau cost effeithiol o ansawdd uchel mewn ystod o feysydd. Mae’r rhain yn cynnwys caffael a monitro lleoliadau preswyl cost uchel, mabwysiadu a gwasanaethau ar ddyletswydd mewn argyfwng.

Yn gyffredinol mae gennym ni berthynas waith dda â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Cafwyd gweithio da mewn partneriaeth wrth ddatblygu gofal canolraddol a gweithio mewn ardaloedd, er enghraifft.

Byddwn yn mireinio’n partneriaethau statudol ar draws gogledd Cymru yn ystod 2011/12. Mae Conwy a Sir Ddinbych eisoes wedi cytuno i sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd, a fydd yn darparu platfform ar gyfer mwy o integreiddio gofal cymdeithasol ac iechyd.

Sefydlogrwydd ac adnoddau ariannol

Fel pob awdurdod lleol arall, rydyn ni'n wynebu sefyllfa ariannol heriol iawn yn ystod y blynyddoedd nesaf. Golyga hyn y bydd rhaid i ni wneud ein gwasanaethau'n fwy effeithiol trwy weithio â sefydliadau eraill a sicrhau ein bod ni'n gwneud y newidiadau cywir. Mae gwneud popeth fedrwn ni i osgoi effaith negyddol ar y cyhoedd wedi bod yn egwyddor allweddol yn Sir Ddinbych. Gallai hyn olygu gwneud pethau'n wahanol.

Mae'n hanfodol bwysig bod sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd i barhau i ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf er gwaetha'r pwysau ariannol. Fe wnawn ni wneud hyn mewn nifer o ffyrdd, megis buddsoddi i arbed arian, cydweithio rhagor, a gweithio mewn modd mwy effeithlon. Datblygodd y Cyngor gynllun ariannol tymor canolig yn ystod 2010/11 yn nodi sut rydyn ni'n bwriadu gwneud arbedion o tua £20m dros y pedair blynedd nesaf. Nodir arbedion arfaethedig y Gwasanaethau Cymdeithasol yn y cynllun hwn, a byddwn yn tracio a monitro hyn yn barhaus.

Comisiynu a chontractau

Rydyn ni'n sylweddoli pwysigrwydd gweithio â mudiadau gwirfoddol a darparwyr annibynnol i ddarparu'r gwasanaethau cywir am y pris iawn.

Mae gennym ni strategaethau comisiynu sy'n nodi ein cynlluniau ar gyfer datblygu ein gwasanaethau. Datblygwyd y rhain ar y cyd â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, addysg a'r sectorau gwirfoddol ac annibynnol. Hefyd gwnaethom ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau i sicrhau bod ein cynlluniau yn darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw. Lle bo'n briodol rydyn ni'n comisiynu gwasanaethau ar y cyd â sefydliadau eraill, fel ein Panel Cyd-gomisiynu ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'n Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl. Buom yn awyddus i weithredu ein strategaethau yn ystod y ddwy i dair blynedd gyntaf, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y gwasanaethau newydd sy'n dod i'r amlwg yn awr.

Mae rhai o'n strategaethau yn dod i ben yn awr, a byddwn yn adolygu a diweddaru ein cynnydd o ran darparu ein strategaethau comisiynu presennol yn ystod 2011. Fe wnawn ni ddiweddaru'r cynlluniau gweithredu perthnasol i ystyried dulliau comisiynu rhanbarthol, canllawiau gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys y Mesur Gofalwyr newydd, yr ymateb i 'Wasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy', dogfen polisi Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r amgylchiadau ariannol newydd.

Mae croeso i chi roi adborth i:

Adborth ACRF
Tŷ Nant
Prestatyn
LL19 9LG.

Neu mae croeso i chi ffonio 01824 712900 neu anfon neges e-bost i sylwadaugc@sirddinbych.gov.uk i roi eich sylwadau.

Cysyniad a delweddau Teulu Ceri: © Uned Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Sir Ddinbych.